



Archwilio gwybodaeth y cyhoedd, agweddau ac ymddygiadau'r cyhoedd ynghylch pobl gyffredin sydd yn y fan a'r lle yn rhoi CPR ac yn defnyddio diffibriliwr mewn amgylchiadau ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty

Canfyddiadau rhagarweiniol

Mae Adfywio Cardio-pwlmonaidd (CPR) gan berson yn y fan a'r lle yn un o benderfyneddion allweddol goroesi yn dilyn ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty (OHCA). Mae'r cynllun OCHA ar gyfer Cymru (2017) a gynhyrchwyd gan is-grŵp OHCA y Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau'r Galon¹ yn amlinellu rhaglen gydweithredol o waith i wella goroesiad a gofal pobl sy'n cael ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty yng Nghymru. Prif nodau'r cynllun OCHA ar gyfer Cymru yw creu parodrwydd i helpu 'diwylliant CPR gan berson yn y fan a'r lle', codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth ac addysg y cyhoedd, cynyddu mynediad at hyfforddiant CPR a defnyddio diffibrilwyr awtomataidd a gwella llwybrau i ofal ac adsefydlu mewn achosion o ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty.

¹Mae'r Grŵp Gweithredu Gyflyrau'r Galon yn cynnwys aelodau o bob rhan o gymuned y galon yng Nghymru, gan gynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, y gymuned a'r trydydd sector. Mae'r grŵp yn atebol i Lywodraeth Cymru ac yn cael ei gadeirio gan Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd GIG Cymru a'i ddiben yw rhoi arweiniad a goruchwyliaeth i gefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau ar y Galon 2016-2020.

Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn sefydlu partneriaeth² Achub Bywydau Cymru i osod sylfeini rhaglen o weithgareddau a oedd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o argaeledd a hygyrchedd hyfforddiant CPR/diffibriliwr mewn cymunedau, datblygu rhwydweithiau lleol i annog cydweithredu ar draws gwasanaethau i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth hyfforddi, argaeledd diffibrilwyr ac i gydlynu gweithgareddau a digwyddiadau'r ymgyrch.

Casglodd yr astudiaeth hon ddata i lywio gweithgareddau Partneriaeth Achub Bywydau Cymru. Bydd y canfyddiadau yn helpu i lywio datblygiad ymgyrch ymwybyddiaeth ac addysg gyhoeddus ac ymyriadau newid ymddygiad yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r rhwystrau i ymyrryd yn achos OHCA, gyda'r nod o wella cyfradd yr achosion o CPR a'r defnydd o ddiffibrilwyr gan bobl yn y fan a'r lle yng Nghymru. Casglwyd data drwy Arolwg Omnibws Cymru, a weinyddir gan Beaufort Research; arolwg omnibws wyneb yn wyneb o'r boblogaeth gyffredinol gyda sampl cwota cynrychioliadol o 1,025 o boblogaeth oedolion Cymru (16 oed a throsodd) a gyfwelwyd rhwng 3 a 21 Mehefin 2019.

Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau a'r casgliadau allweddol yn ogystal â nodau ac amcanion yr ymchwil; dull, sampl a dadansoddiad. Dilynir y canfyddiadau rhagarweiniol yma gyda chyhoeddiad adroddiad llawn, yn cynnwys adolygiad cyflym o'r dystiolaeth a'r tablau data a gynhyrchwyd gan Beaufort Research yn sgil dadansoddi data Arolwg Omnibws Cymru.

Canfyddiadau allweddol

Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau allweddol o'r data a gasglwyd drwy Arolwg Omnibws Cymru.

Adfywio Cardio-pwlmonaidd (CPR) a Hyfforddiant Diffibriliwr

Hyfforddiant CPR

Roedd cyfran o 56 y cant o'r ymatebwyr yn dweud eu bod wedi derbyn hyfforddiant CPR. Fodd bynnag, roedd ychydig yn llai na hanner (45 y cant) o'r rheini yn nodi iddynt gael hyfforddiant, neu hyfforddiant gloywi, fwy na phum mlynedd yn ôl. Nododd 19 y cant arall iddynt gael hyfforddiant ddiwethaf rhwng dwy a phum mlynedd yn ôl. O'r un grŵp, ychydig yn llai na hanner (45 y cant)

²Mae Partneriaeth Achub Bywydau Cymru yn cynnwys sefydliadau sy'n aelodau o bob rhan o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol gan gynnwys GIG Cymru, y gwasanaethau brys, sefydliadau trydydd sector, grwpiau gwirfoddol, awdurdodau lleol, academyddion a phartneriaid yn y diwydiant. Mae'r grŵp yn atebol i is-grŵp Gweithredu OCHA ac yn llywio gwaith Rhwydwaith Cardiaidd Cymru.

oedd wedi derbyn hyfforddiant CPR gorfodol fel un o ofynion eu swydd, ac roedd 19 y cant wedi dewis dilyn cwrs a drefnwyd gan eu cyflogwr.

Byddai hanner yr ymatebwyr nad oedden nhw wedi derbyn hyfforddiant CPR yn hoffi cael hyfforddiant, gyda'r dymuniad hwn ar ei uchaf ymhlith y rhai 35-44 oed (68 y cant) ac 16-24 oed (67 y cant). Y prif resymau a roddodd ymatebwyr dros beidio â derbyn hyfforddiant CPR oedd nad oedden nhw erioed wedi cael y cyfle (36 y cant) neu nad oedden nhw erioed wedi meddwl (35 y cant) am gael hyfforddiant CPR. Roedd yr awydd i weld hyfforddiant cyffredinol yn uchel, gyda mwyafrif llethol (84 y cant) yr ymatebwyr yn cytuno y dylai pawb gael eu hyfforddi i ddefnyddio CPR.

Hyfforddiant Diffibriliwr

Roedd y gyfran a hyfforddwyd i ddefnyddio diffibriliwr yn llawer is, gyda dim ond 23 y cant o'r holl ymatebwyr yn adrodd eu bod wedi derbyn hyfforddiant. Tra bod ychydig dan ddau o bob pump (38 y cant) wedi derbyn hyfforddiant yn ystod y flwyddyn flaenorol, nododd cyfran debyg (42 y cant) iddynt dderbyn hyfforddiant ddiwethaf dros ddwy flynedd yn ôl. Fel CPR, roedd cyflogaeth yn bwynt mynediad a chyfrwng pwysig ar gyfer darparu hyfforddiant diffibriliwr, gyda 55 y cant o'r rhai a dderbyniodd hyfforddiant diffibriliwr wedi gwneud hynny fel un o ofynion eu swydd. Roedd mwy na hanner yr ymatebwyr nad oedden nhw wedi cael hyfforddiant diffibriliwr yn awyddus i gael y cyfle, gyda 53 y cant yn dweud yr hofffen nhw gael eu hyfforddi. Roedd yr awydd i weld hyfforddiant cyffredinol ar gyfer defnyddio diffibriliwr yn uchel, gyda saith o bob deg (71 y cant) o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai pawb gael eu hyfforddi i ddefnyddio diffibriliwr.

Rhoi CPR a defnyddio Diffibrilwyr

CPR

Roedd bron i dri o bob deg o'r ymatebwyr (28 y cant) wedi gweld rhywun yn cwmpo ac, o bosibl, angen CPR gan berson yn y fan a'r lle ac roedd ychydig dros un o bob deg (11 y cant) wedi rhoi CPR i rywun mewn sefyllfa go iawn.

Ar y cyfan, nid oedd yr hyder i roi CPR i rywun yn uchel, gyda llai na hanner yr holl ymatebwyr (48 y cant) yn dweud y byddent yn hyderus. Mae'n werth nodi bod mwy na chwarter y bobl a hyfforddwyd mewn CPR (27 y cant) wedi dweud na fydden nhw'n teimlo'n hyderus am roi CPR i rywun petai'r sefyllfa'n galw am ymyriad.

Cyflwynwyd y sefyllfa ganlynol i'r holl ymatebwyr: 'Hoffwn i chi ddychmygu eich bod yn cerdded ar y stryd a'ch bod yn gweld person cyffredin yn cwmpo. Maen nhw'n anymwybodol, dydyn nhw ddim yn anadlu ac nid oes pwls i'w deimlo. Pe baech chi'r unig berson yno, pa mor debygol yw hi y byddech chi yn rhoi CPR i'r unigolyn dan sylw?' Nododd tri chwarter yr ymatebwyr (75 y cant) y bydden nhw'n debygol o ymyrryd a rhoi CPR i'r person yn yr amgylchiadau yma. Yn y sefyllfa yma, dywedodd 93 y cant o'r rhai a gafodd eu hyfforddi i roi CPR a 95 y cant o'r rhai a gafodd hyfforddiant diffibriliwr y bydden nhw'n debygol o ymyrryd.

Pan ofynnwyd pam na fydden nhw'n ymyrryd o bosibl, dywedodd un o bob pedwar (25 y cant) o'r ymatebwyr nad oedden nhw'n ddigon hyderus i roi CPR neu nad oedd ganddyn nhw'r sgiliau i roi

CPR (24 y cant). Mynegodd ymatebwyr rai pryderon hefyd ynghylch gwaethygu'r sefyllfa (22 y cant).

Diffibrilwyr

Ar y cyfan, roedd lefelau hyder o ddefnyddio diffibriliwr ar rywun yn is, gyda llai na dau o bob pump (38 y cant) o'r holl ymatebwyr yn dweud y bydden nhw'n hyderus. Roedd lefelau hyder yn uwch ymhlith y rhai a hyfforddwyd i roi CPR (55 y cant) neu i ddefnyddio diffibriliwr (88 y cant).

Dylid nodi'n benodol y gyfran o ymatebwyr (55 y cant) nad oedden nhw'n gwybod lle'r oedd eu diffibriliwr agosaf. Hyd yn oed ymhlith y rhai a gafodd eu hyfforddi i ddefnyddio diffibriliwr, adroddodd 35 y cant nad oedden nhw'n gwybod lleoliad eu PAD agosaf.

Yn ogystal, gofynnwyd i ymatebwyr am eu pryderon ynghylch gwaethygu'r sefyllfa naill ai drwy roi CPR neu ddefnyddio diffibriliwr. Pan gyflwynwyd datganiadau iddyn nhw a holi i ba raddau roedden nhw'n cytuno (neu'n anghytuno), roedd bron eu hanner (47 y cant) yn cytuno (cytuno'n gryf neu'n cytuno) y bydden nhw'n poeni y byddai rhoi CPR neu ddefnyddio diffibriliwr yn gwaethygu'r sefyllfa³. Tra bod hyfforddiant mewn CPR neu ddefnyddio diffibriliwr yn lleihau'r pryder hwn, nid oedd yn ei waredu'n llwyr, gyda 35 y cant o'r rheini a hyfforddwyd mewn CPR ac 20 y cant o'r rhai a hyfforddwyd i ddefnyddio diffibriliwr yn pryderu y byddai defnyddio diffibriliwr yn gwaethygu'r sefyllfa. Roedd un o bob tri, 34 y cant, o'r rhai a hyfforddwyd mewn CPR a 23 y cant o'r rhai a hyfforddwyd i ddefnyddio diffibriliwr yn pryderu y byddai defnyddio diffibriliwr yn gwaethygu'r sefyllfa.

Ffactorau cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ymatebion

Canfuwyd bod y ffactorau demograffig a daearyddol canlynol yn gysylltiedig â gwybodaeth, profiad ac agweddau tuag at roi CPR fel person yn y fan a'r lle:

Oedran: yn gyffredinol, yr hynaf yw'r person, y lleiaf tebygol oedd o fod wedi derbyn hyfforddiant CPR ac o ddangos parodrwydd i dderbyn hyfforddiant CPR. O'r rhai a oedd wedi derbyn hyfforddiant CPR, y grŵp oedran uwch (55+) oedd fwyaf tebygol o fod wedi cael hyfforddiant CPR fwy na phum mlynedd yn gynt. Y grŵp oedran uwch oedd y lleiaf hyderus i roi CPR fel person yn y fan a'r lle hefyd. Mae'r canfyddiadau hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried bod y rhan fwyaf o OHCA yn digwydd yng nghartrefi pobl hŷn. Fodd bynnag, mae canfyddiadau arolwg yn dangos y gellid gwella lefelau hyder ymysg pobl hŷn drwy ddarparu arweiniad gan y rhai sy'n ymateb i alwadau 999 yn achos OHCA.

Graddfa gymdeithasol: Roedd pobl mewn galwedigaethau rheoli proffesiynol a swyddi gwaith nad yw'n waith llaw (yn ôl galwedigaeth prif enillydd incwm y cartref) yn fwy tebygol na'r rhai mewn swyddi gwaith llaw, galwedigaethau heb sgiliau a phobl a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir (graddau cymdeithasol C2DE) o fod wedi derbyn hyfforddiant CPR ac yn fwy hyderus i roi CPR pe baent yn cael cyfarwyddyd gan y sawl a oedd yn ymateb i'r

³ Gofynnwyd y cwestiynau ar gyfer CPR a diffibriliwr ar wahân, a chytunodd 47 y cant â'r datganiad yn y ddau gwestiwn

alwad. Mae pobl yng ngraddau cymdeithasol ABC1 hefyd yn fwy tebygol o ddweud y bydden nhw'n hoffi derbyn hyfforddiant mewn CPR.

Statws gweithio: Roedd pobl mewn gwaith yn fwy tebygol o fod wedi derbyn hyfforddiant CPR, wedi derbyn yr hyfforddiant yn fwy diweddar ac yn dangos lefelau uwch o hyder i roi CPR. Tra bod pobl mewn gwaith hefyd yn fwy tebygol o fod awydd derbyn hyfforddiant mewn CPR, roedd yr awydd i dderbyn hyfforddiant CPR yn eithaf uchel ymhlith myfyrwyr a phobl a oedd yn ddi-waith hefyd.

Ethnigrwydd: Ar y cyfan, roedd lefelau hyfforddiant yn is ymhlith grwpiau BME. Ymatebwyr BME a oedd wedi derbyn hyfforddiant CPR oedd fwyaf tebygol o fod wedi'u hyfforddi fel un o ofynion eu swydd, a'r mwyaf diweddar i dderbyn hyfforddiant gyda'r mwyafrif wedi cael eu hyfforddi 7-12 mis yn ôl. Roedden nhw hefyd ymhlith y rhai a oedd fwyaf tebygol o fod wedi derbyn hyfforddiant diffibriliwr. Fodd bynnag, roedd lefelau hyder a pharodrwydd i ymyrryd mewn achos o OHCA yn gymharol isel.

Natur wledig: Ymatebwyr mewn lleoliadau gwledig oedd fwyaf tebygol o gefnogi hyfforddiant cyffredinol mewn CPR a defnyddio diffibriliwr. Ymatebwyr mewn ardaloedd gwledig oedd fwyaf tebygol o ddweud y bydden nhw'n ymyrryd i ddarparu CPR os mai nhw fyddai'r unig berson yn y fan a'r lle.

Y Camau Nesaf

Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau allweddol cychwynnol yn seiliedig ar ddata Arolwg Omnibws Cymru a gasglwyd dros gyfnod o bythefnos ym mis Mehefin 2019. Cyhoeddir adroddiad llawn yn ddiweddarach eleni, yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth gryno a'r tablau data a gynhyrchwyd gan Beaufort Research wrth weinyddu Arolwg Omnibws Cymru. Bydd yr adroddiad yn gwneud cyfres o argymhellon gyda'r bwriad o hysbysu gweithgareddau cyfathrebu yn y dyfodol i gefnogi gweithrediad rhaglen Achub Bywyd Cymru.

Awduron yr adroddiad: Prosser, N.; Beaufort Research



Adroddiad ymchwil llawn: Prosser, N. (2019). *Archwilio gwybodaeth y cyhoedd, agweddau ac ymddygiadau'r cyhoedd ynghylch pobl gyffredin sydd yn y fan a'r lle yn rhoi CPR ac yn defnyddio diffibriliwr mewn amgylchiadau ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 49/2019.

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/ataliad-y-galon-y-tu-allan-ir-ysbyty-canfyddiadau-rhagarweiniol-cyhoeddiad>

Barn yr ymchwilwyr yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Nina Prosser

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: nina.prosser@wales.gsi.gov.uk

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-83933-325-5